

Eluned Morgan AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Care



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Senedd

seneddiechyd@senedd.cymru

20 Mehefin 2024

Annwyl Russell

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 22 Mai, yn rhinwedd eich swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yn gofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf am hynt y gwaith o weithredu argymhellion Adroddiad y Pwyllgor ar ryddhau cleifion o'r ysbyty a'i effaith ar y llif cleifion drwy ysbytai.

Mae'r atodiad atodedig yn rhoi diweddariad cynhwysfawr ar y camau a gymerwyd tuag at gyflawni'r argymhellion unigol, ond rwyf am dynnu sylw at rai o'r meysydd allweddol i hwyluso rhyddhau amserol o'r ysbyty, a gallaf roi'r wybodaeth ganlynol i'r Pwyllgor:

- Mae ein system adrodd ar oedi yn y Llwybrau Gofal bellach wedi bod yn gwbl weithredol ers dros flwyddyn, gan ddarparu ffynhonnell ddata gyfoethog sy'n cofnodi'r holl gleifion yr ystyrir eu bod yn ffit yn glinigol ac yn barod i'w rhyddhau, ond sy'n dal i fod yn yr ysbyty ar ôl 48 awr. Mae pob oedi yn cael cod rheswm penodol a maes arweiniol (gofal cymdeithasol/iechyd/ar y cyd) i helpu i nodi'r prif resymau oedi sy'n codi'n gyson. Drwy ddefnyddio'r data hyn, gall y byrddau iechyd a'u hawdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd yn rhanbarthol mewn modd a dargedir, er mwyn ymateb i'r prif ffactorau sy'n peri oedi, megis oedi sy'n gysylltiedig ag asesiadau a chapasiti gofal cymdeithasol yn y gymuned. Mae hyn wedi ein helpu i nodi'r materion allweddol sy'n effeithio ar ryddhau cleifion, gan ein galluogi i ddechrau llunio camau gweithredu priodol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Mae nifer o fesurau ar waith, neu'n cael eu datblygu, i ehangu darpariaeth yn y gymuned er mwyn ein galluogi i ryddhau cleifion mewn modd diogel a phriodol. Mae datblygu'r 'chwe model gofal' yn sylfaen ar gyfer hyn, ac maent yn ganolog ar gyfer adeiladu ein System Gofal Cymunedol Integredig i gefnogi a helpu i leihau'r llif i mewn ac allan o'r ysbyty. Mae datblygiadau eraill yn cynnwys ein nod o gynyddu cyfran y Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i lechyd y gellir cael mynediad atynt yn y gymuned, er mwyn darparu gwasanaethau cam-i-fyny sy'n helpu i osgoi derbyn claf i'r ysbyty, a hefyd cymorth ail-alluogi cam-i-lawr ar ôl i glaf gael ei ryddhau. Yn ogystal â hynny, mae datblygu ystod o gyfleusterau cam-i-lawr, gan gynnwys cyfleusterau gwely, i alluogi'r prosesau rhyddhau cleifion a llif cleifion, o dderbyn i "Gartref yn Gyntaf".
- Er mwyn helpu i ymateb i broblemau'r gweithlu i gefnogi'r ddarpariaeth gofal cymdeithasol yn y gymuned, mae'r Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol yn parhau i weithio mewn partneriaeth gymdeithasol ar ba gamau y gellir eu cymryd i wella telerau ac amodau i weithwyr gofal cymdeithasol. Mae hynny'n cynnwys parhau i ddatblygu'r fframwaith Tâl a Dilyniant, a chychwyn 'Partneriaeth y Gweithlu Gofal Cymdeithasol', model unigryw a fydd yn y pen draw yn ymgorffori llawer o elfennau Gwaith Teg sy'n cael eu datblygu gan y Fforwm ar hyn o bryd. Mae hefyd ymrwymiad parhaus i godi proffil a statws y gweithlu gofal cymdeithasol. Drwy'r Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol, mae undebau llafur, cyflogwyr, a Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio mewn partneriaethau o ran pa gamau y gellir eu cymryd i wella telerau ac amodau i ddenu mwy o weithwyr gofal cymdeithasol.

Hyderaf y bydd cynnwys yr ymateb hwn yn rhoi'r manylion angenrheidiol i'r Pwyllgor ynghylch ein camau gweithredu ar gyfer mynd i'r afael â'r argymhellion, a rhoi sicrwydd ein bod yn blaenoriaethu gwelliannau i'r llif cleifion a phrosesau rhyddhau cleifion o'r ysbyty.

Yn gywir,



Eluned Morgan AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Care

**Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i
Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn dilyn ei Ymchwiliad ar:
Rhyddhau cleifion o ysbytai ac effaith hynny ar y llif cleifion drwy ysbytai
Diweddariad ar argymhellion – Mehefin 2024**

Argymhelliad 1. Cyn diwedd 2022, dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu atom i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am effeithiolrwydd ac effaith ailosod y system ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys i ba raddau y mae wedi cefnogi a gwella llif drwy'r system gyfan, yr effaith y mae wedi'i chael ar nifer y cleifion sy'n cael eu dal yn ôl, a pha gamau pellach a fwriedir o ganlyniad i hynny.

Darparwyd adolygiad o effaith y system yn yr ymateb ffurfiol i'r Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2022. Nid oes unrhyw ailosodiadau system a gydlynir yn genedlaethol wedi'u cynllunio ar hyn o bryd, er bod systemau iechyd a gofal cymdeithasol lleol yn gallu cynllunio a chyflwyno ymarferion tebyg lle maent yn credu yr ychwanegir gwerth.

Canolbwyntiodd y Pwyllgor Gweithredu Gofal yn 2023-24 ar oedi asesu sy'n cyfrif am oddeutu 50% o'r holl ryddhau gohiriedig. Mae byrddau iechyd ac awdurdodau lleol wedi dod at ei gilydd i ganfod atebion i'r her hon. Mae awdurdodau lleol wedi lleihau nifer yr oediadau oherwydd dyraniad ac asesiad gweithwyr cymdeithasol, ond maent yn dal yn uchel.

Mae'r model Asesydd Dibynadwy wedi'i wreiddio ar lefel ward ysbytai ledled Cymru. Mae Aseswyr Dibynadwy'n helpu i leddfu'r pwysau ar oedi asesiadau trwy gynnal asesiadau cymesur arferol rhagarweiniol neu fwy rheolaidd ar gleifion, a all wedyn ryddhau gweithwyr cymdeithasol i ganolbwyntio eu hymdrechion ar achosion mwy cymhleth. Ategir y gwaith hwn gan system adrodd am oedi yn achos llwybrau gofal (a nodir yn argymhelliad 4) a ddefnyddiwyd i ddechrau nodi'r bwloch a arweiniodd at y gwaith yn dechrau ac yna monitro perfformiad asesu cyffredinol ar draws rhanbarthau.

Argymhelliad 2. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF) newydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn effeithiol o ran canfod a phrif ffrydio prosiectau llwyddiannus sy'n gwella llif cleifion i arfer cyffredin ledled Cymru. Felly, dylai'r adroddiadau statws chwarterol gynnwys asesiad o gynnydd o ran datblygu a chyflwyno prosiectau i wella llif cleifion

Yn ddiweddar, mae'r Byrddau Partneriaeth Lleol wedi cyflwyno eu hail adroddiad diwedd blwyddyn ar y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ac maent yn nodi elfennau craidd i ddatblygu'r chwe model gofal integredig. Rydym yn mapio'r elfennau hynny ar lefel genedlaethol gan gynnwys cymharu gweithgarwch prosiect tebyg cyn datblygu manylebau cenedlaethol.

Mae cyfanswm y buddsoddiad blynyddol o £145m hyd at ddiwedd mis Mawrth 2027 wedi'i ddyrannu ar draws y modelau gyda Gofal yn y Gymuned: Atal a Chydlwynu Cymunedol yn derbyn 30% (£36.197m) o'r dyraniad cyllid. Mae dyraniad cartref o'r ysbyty yn 25% ac mae'n cyfateb i £29.674m, ac yna Gofal Cymhleth yn nes at y

Cartref sy'n 20% (£24.327m). Mae modelau gofal eraill yn amrywio o 16% i 2% yn y drefn honno. D.S. - mae amrywiad o flwyddyn i flwyddyn oherwydd bod prosiectau'n cyflymu neu wedi'u hymwreiddio gyda chyllid yn cael ei ailddyrannu i brosiectau newydd o fewn y modelau gofal.

Mae datblygu'r chwe model gofal yn darparu'r sylfaen ac yn ganolog wrth adeiladu ein System Gofal Cymunedol Integredig gyda'r bwriad o feithrin gallu cymunedol i gefnogi a helpu i leihau'r llif i mewn ac allan o'r ysbyty gydag asesiad amserol a rhagweithiol i sicrhau bod pobl yn gallu aros gartref neu osgoi dychwelyd i'r ysbyty.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth am sut a phryd y bydd yr archwiliadau arfaethedig o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF) ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cael eu cynnal, sut yr ymgynghorir â rhanddeiliaid, ac a fydd adroddiadau'n cael eu cyhoeddi.

Cafodd y panel Arbenigol ei oedi wrth i waith gael ei ddatblygu i symleiddio a chysoni casgliad ehangach o raglenni perthynol fel y rhaglen RIF, *Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng* a'r rhaglen Gofal Sylfaenol Strategol. Fel rhan o hyn, cytunwyd y dylid monitro Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn erbyn y darlun ehangach yn hytrach na dim ond yr RIF.

Mae'r RIF yn cael ei gwerthuso'n barhaus ac mae canfyddiadau gwerthusiad cam cyntaf y RIF wedi'i gyflwyno i swyddogion a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Cynhaliwyd gweithdy i ystyried themâu a meysydd i'w gwella a fydd yn llywio gwaith ail flwyddyn y gwerthusiad cenedlaethol. Cafodd proses adrodd y RIF ei hadolygu a'i chryfhau yn 2023 a chyd-gynhyrchwyd fframwaith Mesuriadau.

Mae proses ymgysylltu helaeth a pharhaus â rhanddeiliaid yn y cymunedau ymarfer, sy'n cyd-fynd â'r chwe model gofal, gan gynnwys defnyddwyr gwasanaeth a chynrychiolwyr gofalwyr.

Cyhoeddwyd adroddiad blynyddol Blwyddyn Un RIF yn 2023. Bydd adroddiad Blwyddyn Dau yn cael ei gyhoeddi ddiwedd yr haf/dechrau'r hydref ynghyd â digwyddiad arddangos a gynhelir ar 16 Medi 2024 a bydd yn cyfuno'r RIF/IRCF/HCF a Datganiad Llafar

Mae Blwyddyn Dau wedi darparu data mwy cyflawn a byddwn yn ystyried sut rydym yn datblygu mwy o waith monitro rheolaidd unwaith rydyn ni'n fodlon bod yr holl ranbarthau'n adrodd yn gadarn yn feintiol ac ansoddol.

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru bennu a chyhoeddi amserlen ar gyfer cyflwyno mesuriadau data newydd, gwell mewn perthynas ag oedi wrth drosglwyddo gofal

Mae'r Fframwaith Oedi yn Achos Llwybrau Gofal ar waith fel dull adrodd ffurfiol, wedi'i ddilysu, ers mis Ebrill 2023. Mae'n darparu set ddata gynhwysfawr a chyson i bartneriaid iechyd a gofal cymdeithasol ar achosion o oedi wrth ryddhau cleifion yn rhanbarthol fel y gellir targedu ymyriadau a chamau gweithredu perthnasol yn fwy priodol. Cyhoeddir data misol [Oedi yn achos llwybrau gofal yn ôl rheswm am yr oedi](#)

[a'r dyddiad \(llyw.cymru\)](#) o dan set helaeth o godau rheswm, wedi'u dadansoddi i lefel byrddau iechyd ac awdurdodau lleol, gan ddarparu trosolwg clir o'r sefyllfa ledled Cymru.

Mae rhanbarthau'n defnyddio'r data hwn hefyd i lywio eu cynlluniau gweithredu chwarterol, sy'n cael eu cyd-gynhyrchu gan fyrddau iechyd gyda'u hawdurdodau lleol, i nodi themâu a thueddiadau oedi allweddol er mwyn pennu arferion gwaith newydd neu well i ymateb i'r grwpiau oedi mwyaf.

Mae'r Fframwaith Oedi yn Achos Llwybrau Gofal wedi helpu i sicrhau bod gan bob sector gyfrifoldeb ar y cyd i weithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael ag oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty. Mae'r data'n cael ei ddefnyddio fel rhan o Fframwaith Perfformiad y GIG yn ogystal ag mewn cyfarfodydd Ansawdd, Cynllunio a Chyflawni Integredig (IQPD) unigol gyda byrddau iechyd.

Mae byrddau iechyd a'u partneriaid yn cael eu cefnogi a'u hannog i wneud mwy i fynd at wraidd y ffigurau misol a gweld beth arall y gellir ei wneud i gynnwys gwelliannau cynaliadwy mewn arferion gweithio ar y cyd a fydd o fudd i lif cleifion yn y pen draw ac yn lleihau oedi wrth ryddhau unigolion o'r ysbyty.

Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Canllawiau Rhyddhau o'r Ysbyty [Canllawiau Rhyddhau o'r Ysbyty \(llyw.cymru\)](#) diwygiedig ar gyfer staff rheng flaen i gefnogi eu prosesau rhyddhau. Mae'r Canllawiau'n nodi tasgau, safonau a disgwyliadau allweddol pob sefydliad partner perthnasol sy'n ymwneud â'r broses ryddhau ac yn rhoi pwyslais ar sicrhau ei bod yn digwydd mewn ffordd ddiogel ac amserol. Dyma beth o'r wybodaeth ategol allweddol sydd wedi'i chynnwys yn y canllawiau:

- Sicrhau bod arferion cyfathrebu a rhannu gwybodaeth da ar waith gydol y broses er mwyn helpu i hwyluso trosglwyddiad claf naill ai yn ôl adref neu i'w breswylfa arferol megis cartref gofal.
- Gwybodaeth benodol i gleifion, eu teuluoedd a/neu ofalwyr am swyddogaethau gofal cymdeithasol allweddol a allai fod eu hangen fel rhan o'u gofal parhaus a dolenni i wybodaeth ategol y gall staff ei rhannu â chleifion a theuluoedd.
- Manylion ynghylch sut mae rôl y Cydlynnydd Gofal yn ganolog i'r broses ryddhau gan eu bod yn gyfrifol am oruchwylio cynllun rhyddhau pob claf. Mae hyn yn cynnwys asesu, cyfathrebu a rheoli eu proses ryddhau yn weithredol.
- Dolenni i waith dan *Chwe Nod y Rhaglen Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng* gan gynnwys Llwybrau Rhyddhau i Adfer yna Asesu (D2RA), SAFER a Coch i Wyrdd. Nod y prosesau hyn yw cefnogi cleifion trwy lwybrau ysbyty a sicrhau eu bod yn barod i'w rhyddhau cyn gynted ag y cânt eu hoptimeiddio'n glinigol.

Argymhelliad 5. Fel rhan o'i gwaith o fonitro'r modd y caiff Rhyddhau i Adfer yna Asesu (D2RA) ei weithredu, rhaid i Lywodraeth Cymru egluro sut mae'n bwriadu sicrhau bod cynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion yn digwydd cyn gynted â phosibl a'i bod yn cynnwys cynrychiolwyr o'r holl sectorau perthnasol.

Mae Llwybrau D2RA wedi cael eu gweithredu ledled Cymru ar wardiau oedolion cyffredinol mewn Ysbytai Acíwt a Chymunedol,

Ar hyn o bryd mae mesurau allweddol D2RA mewn profion Cam 2 ledled Cymru. Rhagwelir y bydd data ar gael erbyn y gwanwyn 2025. Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos gyda Thim Nod 6 Gweithredol y GIG i gefnogi byrddau iechyd i ddatblygu systemau addas ar gyfer cofnodi ac adrodd yn erbyn y pum mesur allweddol fel a ganlyn:

- Nifer a % y bobl a ddyrannwyd i lwybr D2RA a Dim Llwybr wedi'i Ddyrannu o fewn 1 diwrnod i'w derbyn i'r ysbyty.
- Nifer a % y bobl wedi'u hoptimeiddio'n glinigol a dyrannu llwybr D2RA (yn ôl llwybr) a Dim Llwybr wedi'i Ddyrannu
- Nifer a % y bobl sy'n cael eu rhyddhau i bob Llwybr D2RA 0,1,2,3 a Dim Llwybr wedi'i Ddyrannu.
- Hyd aros canolrifol ar gyfer pob llwybr a Dim Llwybr wedi'i Ddyrannu
- Cyfraddau aildderbyn i'r ysbyty o fewn 28 diwrnod i bawb a ryddhawyd ar Lwybr D2RA.

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y gosodwyd y targedau a nodir yn natganiad y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 19 Mai 2022 ar ofal brys a gofal mewn argyfwng a'r Rhaglen Chwe Nod i gael gwared ag oedi o dros bedair awr wrth drosglwyddo cleifion o ambiwlansys a sicrhau lleihad o 25% (o'r lefel ym mis Hydref 2021) yn yr amser cyfartalog sy'n cael ei golli gan ambiwlans. Dylai hefyd gadarnhau'r dyddiadau targed ar gyfer cyflawni'r targedau hyn.

Er bod rhai byrddau iechyd wedi dangos gwelliant mae cynnydd amrywiol yn parhau o ran gwella perfformiad trosglwyddo cleifion ambiwlans. Rydym yn dal i bryderu am effaith yr oedi ar brofiad cleifion a gallu'r gwasanaeth ambiwlans i ymateb i eraill yn y gymuned.

Mae disgwyliad newydd wedi'i osod ar gyfer byrddau iechyd yn 2024-2025. Disgwylir i bob bwrdd iechyd sicrhau gostyngiad o 30% yn nifer y cleifion sy'n aros dros awr i drosglwyddo i ofal staff adrannau brys erbyn mis Rhagfyr 2024. Mae hyn yn ychwanegol at ddisgwyliad gwella newydd ar gyfer lleihau arosiadau >12 awr ar gyfer rhyddhau, derbyn neu drosglwyddo o adrannau brys.

Mae byrddau iechyd wedi cyflwyno taflwybrau gwella ac maent yn cael eu monitro'n wythnosol gan Weithrediaeth y GIG, gyda chyfarfodydd misol rhwng Llywodraeth Cymru, Gweithrediaeth y GIG a byrddau iechyd a chyfarfodydd chwarterol rhwng Prif Weithredwr GIG Cymru/Cyfarwyddwr Cyffredinol Grŵp HSCEY a phrif weithredwr perthnasol y bwrdd iechyd.

Cefnogir byrddau iechyd i gyflawni'r gwelliannau hyn trwy'r rhaglen *Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng* a chyllid ychwanegol o £2.7m gan Lywodraeth Cymru i gefnogi cynlluniau cyflenwi rhaglenni lleol.

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu'r cyllid ar gyfer gwasanaethau ail-alluogi a therapi cartref a gweithio gyda phartneriaid i sefydlu gwasanaeth adsefydlu cofleidiol cynhwysfawr.

Mae'r rhaglen Fframwaith Proffesiynau Iechyd Perthynol Cenedlaethol yn parhau i geisio newid y defnydd o weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yng Nghymru. Mae'r nodau'n cynnwys cynyddu'r gyfran o weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd sy'n hygyrch mewn gwasanaethau cymunedol ac sy'n gallu darparu cymorth ymyrraeth gynnar rhagweithiol, (megis gofal canolradd 'cam i fyny') yn ogystal â gosod nodau ailalluogi ac adsefydlu cymunedol 'cam i lawr'. Yn 2023 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y [safonau adsefydlu cymunedol](#). Datblygwyd y safonau hyn i gefnogi [Fframwaith Adsefydlu Cymru Gyfan \(2022\)](#).

O fis Ebrill 2023, darparwyd £5m ychwanegol ar gyfer gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a staff cymorth ychwanegol mewn gwasanaethau cynradd a chymunedol. Hyd yma (Mehefin 2024) mae 89 o bobl cyfwerth ag amser cyflawn ychwanegol mewn swydd, sy'n darparu mwy o gymorth ymyrraeth sylfaenol a chymunedol er mwyn helpu pobl i aros yn iach gartref a dychwelyd adref ar ôl cael eu rhyddhau o'r ysbyty. Mae gwasanaethau ailalluogi yn ei gwneud yn ofynnol i weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd wneud asesiadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a chyflwyno cynlluniau unigol ar gyfer adferiad - er bod staff cyflenwi ailalluogi yn cael eu darparu trwy wasanaethau awdurdodau lleol fel arfer sy'n cael eu hariannu ar wahân.

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn gweithio gyda byrddau iechyd a phartneriaid eraill i sicrhau bod mwy o gyfleusterau cam-i-lawr mwy priodol ar gael ledled Cymru.

Mae darpariaeth gymunedol cam i lawr yn disgrifio cyfuniad o gyfleusterau gwely ychwanegol yn ogystal â chynyddu darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol integredig cam i lawr yng nghartref yr unigolyn fel dewis arall diogel yn lle ei dderbyn i'r ysbyty a/neu ryddhau'n gyflym.

Er mwyn cyflawni hyn, darparodd Llywodraeth Cymru £8.24m, sy'n codi i £11.95m ar gyfer 2024-25, i gynyddu capasiti iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol. Rydym wedi buddsoddi £5m ar wahân o 2023-24 ymlaen i greu Gweithwyr Proffesiynol Iechyd Perthynol cymunedol ychwanegol a £8.3m i ehangu mynediad at wasanaethau a ariennir gan Adferiad.

Yn ogystal, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae bron £145m wedi'i fuddsoddi drwy'r RIF ar brosiectau a ddarperir gan bartneriaid iechyd a gofal cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau cymunedol. Mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, drwy'r RIF, yn datblygu mwy o ddarpariaeth cam i lawr sy'n elfennau pwysig o'r modelau gofal, yn benodol Gartref o'r Ysbyty a Gofal Cymhleth yn agos at y Cartref, ac mae ailalluogi yn nodwedd allweddol.

Mae'r modelau gofal hynny'n rhan annatod o'r ffordd rydym yn adeiladu'r System Gofal Cymunedol Integredig. Mae cael amrywiaeth o gyfleusterau cam i lawr yn helpu gyda phrosesau rhyddhau o'r ysbyty a llif cleifion o gael eu derbyn i'r cartref yn gyntaf. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r clystyrau'n chwarae rhan ganolog drwy weithio ar y cyd, sy'n allweddol wrth i ni ddatblygu'r System Gofal Cymunedol Integredig.

Ym mis Tachwedd 2023 dyfarnwyd £11.3m o gyllid gan IRCF a HCF i Gyngor Sir y Fflint i godi a datblygu adeilad newydd sbon, Croes Atti, i ddarparu gofal preswyl a gwasanaethau gofal integredig i bobl hŷn yn Sir y Fflint. Bydd yr adeilad yn cynnwys 56 ystafell wely ac yn fodd i adleoli ac ehangu cartref gofal cyfredol 31 ystafell wely Croes Atti, sydd hefyd yn y Fflint. Bydd o leiaf 12 gwely'n cael eu dyrannu yn rheolaidd i gefnogi D2RA. Hefyd, bydd 28 gwely'n cael eu darparu ar gyfer Preswylfa Cleifion Meddyliol Oedrannus, gyda hyblygrwydd i addasu i anghenion newidiol y boblogaeth.

Yn gyffredinol, rydym yn disgwyl i'r cyllid hwn gael ei alinio er mwyn sicrhau ymateb gwasanaeth aml-broffesiynol, wedi'i integreiddio'n dda yn y gymuned. Mae byrddau iechyd a'u partneriaid awdurdod lleol a phartneriaid ehangach yn gyfrifol ar y cyd drwy'r grwpiau cynllunio ar draws y clystyrau ar gyfer penderfynu sut y byddant yn defnyddio'r buddsoddiad hwn, gan gydnabod y bydd angen i gynlluniau adeiladu ar angen lleol a gwasanaethau presennol.

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o fanylion am faint a gaiff ei fuddsoddi mewn llety gofal canolraddol a chyfleusterau cam-i-fyny/cam-i-lawr o ganlyniad i'r Gronfa Tai â Gofal

Mae gan y Gronfa Tai gyda Gofal darged dyrannu arweiniol o isafswm o 20% ar gyfer 'Amcan 2: gweithgareddau gofal a llety canolraddol' bob blwyddyn. Mae gweithgareddau Amcan 2 yn cwmpasu gofal canolradd a llety ac yn cynnwys lleoliadau tymor byr a chanolig, megis cam i fyny/cam i lawr, lleoliadau adsefydlu yn y gymuned, llety pontio i bobl ifanc sy'n gadael gofal, a gofal preswyl i blant ag anghenion cymhleth. Ni fydd defnyddwyr gwasanaeth yn dal tenantiaethau yn y lleoliadau hyn a gaiff eu rheoli gan y priif ddarparwr gwasanaeth.

Yn 2022-23, ymrwymwyd 37% (£10.8m) o wariant cyfalaf y Gronfa Tai gyda Gofal i weithgarwch Amcan 2, ac yn 2023-24, roedd tua* 49% (£20.6m) wedi'i ymrwymo i weithgarwch Amcan 2.

*Figurau cychwynnol sydd eto i'w gwirio.

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru egluro ei disgwyliadau o ran argaeledd gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd mewn gwahanol leoliadau iechyd a gofal, a nodi sut y bydd yn gweithio gyda byrddau iechyd i gynyddu presenoldeb gweithwyr proffesiynol o'r fath wrth "ddrws blaen" gwasanaethau, yn enwedig meddygfeydd ac adrannau damweiniau ac achosion brys. Wrth wneud hynny, dylai Llywodraeth Cymru nodi sut yr eir i'r afael ag unrhyw rwystrau rhag cynyddu argaeledd gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, gan gynnwys yr angen am unrhyw fuddsoddiad cyfalaf mewn ystadau neu gyfleusterau.

Mae'r diweddariadau o dan Argymhelliad 8 ac Argymhelliad 9 yn ymdrin â'r argymhelliad hwn.

Argymhelliad 11. Mae angen i waith y grŵp gorchwyl a gorffen ar leoliadau gofal preswyl interim gael ei wneud fel mater o frys. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi amserlen ar gyfer y gwaith hwn ac ymrwymo i gyhoeddi'r canlyniadau pan fydd y

gwaith wedi'i gwblhau, gan gynnwys cynllun clir ar gyfer bwrw ymlaen ag unrhyw argymhellion.

Mae'r diweddariadau o dan Argymhelliad 8 ac Argymhelliad 9 yn ymdrin â'r argymhelliad hwn.

Argymhelliad 12. Rhaid cyflwyno diwygiadau sylweddol i gyflog ac amodau gwaith staff gofal cymdeithasol yn gyflym. Erbyn diwedd 2022, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu diweddariad ar y gwaith a wnaed i wella cyflog, telerau ac amodau a chyfleoedd i ddatblygu gyrfa ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol, a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau â'u cymheiriaid yn y GIG. Dylai hyn gynnwys diweddariad ar gyflwyno strwythur tâl cenedlaethol ar gyfer gofal hefyd.

Mae'r Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol yn parhau i weithio mewn partneriaeth gymdeithasol ar ba gamau y gellir eu cymryd i wella amodau a thelerau gweithwyr gofal cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys parhau i ddatblygu'r Fframwaith Cydnabyddiaeth a Dilyniant a Chychwyn 'Partneriaeth y Gweithlu Gofal Cymdeithasol', a fydd yn y pen draw yn ymgorffori llawer o elfennau Gwaith Teg sy'n cael eu datblygu gan y Fforwm ar hyn o bryd.

Mae hwn yn gam arwyddocaol gan mai'r Bartneriaeth yw'r gyntaf o'i bath yn y DU, sy'n dod â llywodraeth, cyflogwyr ac undebau ynghyd i weithio mewn partneriaeth gymdeithasol i gytuno ar isafswm set o ddisgwyliadau cyflogaeth ar gyfer staff sy'n gweithio yn y sector gofal cymdeithasol annibynnol, y bydd cyflogwyr yn eu mabwysiadu'n wirfoddol. Ei uchelgais tymor hwy yw ymwreiddio gwaith teg yn y sector gofal cymdeithasol, a bod y disgwyliadau cytûn yn cael eu mabwysiadu fel safonau gofynnol ar gyfer holl staff perthnasol y sector.

Mae'r Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol wedi cytuno ar ei egwyddorion a'i weledigaeth eang ar gyfer y gwaith partneriaeth hwn ac wedi datblygu 'Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth' ar gyfer aelodaeth wirfoddol sydd i'w gyhoeddi cyn bo hir.

Yn dilyn ymgynghoriad ar y Fframwaith Cydnabyddiaeth a Dilyniant drafft, mae'r ymatebion a'r camau nesaf wedi'u hystyried gan yr is-grŵp Cydnabyddiaeth a Dilyniant a'r Fforwm. Gan weithio gydag is-grŵp y Fforwm, bydd Gofal Cymdeithasol Cymru'n rheoli Cam 2 y gwaith yn 2024-25.

Bydd adroddiad cynnydd blynyddol Fforwm 2024 yn cael ei gyhoeddi'n fuan gan roi trosolwg o holl weithgareddau'r Fforwm a'r blaenoriaethau i ddod.

Argymhelliad 13. Erbyn diwedd 2022, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu diweddariad am y gwaith sydd wedi'i wneud i fynd i'r afael â thâl salwch ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol ac amlinelliad o waith arfaethedig y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol (gan gynnwys amserlenni).

Fe wnaeth y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol ddatblygu argymhellion ar gamau gweithredu ar dâl salwch. Mae'r gwaith yn cynnwys gwella gwasanaethau cofleidiol mewn meysydd fel llesiant sy'n egwyddor sylfaenol i'r strategaeth gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol a chymorth menopos, sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Mae swyddogion wedi gweithio drwy'r argymhellion i asesu a chostio camau gweithredu tymor byr, tymor canolig a hirdymor. Fodd bynnag, mae angen ystyried gwaith yng nghyd-destun yr heriau ariannol sy'n ein hwynebu. Rydym wedi ymrwymo i barhau i weithio gyda'r Fforwm i symud ymlaen gyda dulliau y cytunwyd arnynt.

Y llynedd, fe wnaeth Canopi, sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, ymestyn ei wasanaeth cyfrinachol a phersonol o gymorth a chyngor i staff gofal cymdeithasol. Mae'r gwasanaeth yn cynnig mynediad am ddim i staff gofal cymdeithasol at hunangymorth ac adnoddau hunangymorth dan arweiniad, cefnogaeth gan gydweithwyr a sesiynau therapi rhithwir. Mae Canopi yn helpu ein gweithlu i wella eu lles tra maent yn y gwaith ac yn ystod cyfnodau o salwch.

Yn ei blwyddyn gyntaf bydd Partneriaeth y Gweithlu Gofal Cymdeithasol sydd newydd ei sefydlu yn canolbwyntio ar wella a datblygu polisiau AD nad ydynt yn gysylltiedig â chyflog, gan gynnwys polisiau a chanllawiau i gefnogi staff yn ystod cyfnodau o salwch.

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y bydd yn cynyddu recriwtio i'r sector gofal cymdeithasol. Hefyd, dylai gynnal gwerthusiad cadarn o ymgyrch recriwtio Gofalwn.Cymru i ddangos ei bod wedi darparu gwerth am arian ac wedi cynyddu nifer gwirioneddol y ceisiadau am swyddi gofal cymdeithasol a'r nifer sy'n ymgymryd â rolau gofal Cymdeithasol.

Rydym yn parhau i ymroi i godi proffil a statws y gweithlu gofal cymdeithasol. Trwy'r Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol, mae undebau, cyflogwyr a Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio mewn partneriaethau er mwyn nodi pa gamau y gellir eu cymryd i wella amodau a thelerau gweithwyr gofal cymdeithasol er mwyn denu rhagor o weithwyr gofal i'r sector.

Mae Gofalwn Cymru'n parhau i fod yn rym cadarnhaol i'r sector. Comisiynodd Gofal Cymdeithasol Cymru ymchwil sy'n archwilio'r heriau o ran recriwtio a chadw gweithwyr ar hyn o bryd a deall effaith Gofalwn Cymru. Mae adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Mai 2024 yn cyflwyno cyfres o ddeg argymhelliad ar gyfer Gofalwn Cymru a thrwy estyniad Gofal Cymdeithasol Cymru, ochr yn ochr â phedwar argymhelliad i gyflogwyr a darparwyr. Byddwn yn gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru er mwyn helpu i weithredu'r argymhellion hyn, ond daeth yr ymchwil i'r casgliad bod Gofalwn Cymru'n dod â gwerth sylweddol i'r sector. Mae ei weithgareddau'n gwneud yn dda i ennyn diddordeb a hysbysu ceiswyr gwaith ac fe'u hystyriwyd yn hanfodol i fynd i'r afael â heriau denu a recriwtio.

Lansiwyd gwefan newydd Gofalwn Cymru (www.gofalwn.cymru) ar 20 Mawrth 2024 gyda dyluniad a chynllun cliriach. Dywed Gofal Cymdeithasol Cymru, bod 19,886 o hysbysebion swyddi wedi eu gweld rhwng 20 Mawrth a 6 Mehefin 2024 gyda 1,583 o bobl yn clicio i wneud cais neu gysylltu â'r cyflogwr yn uniongyrchol.

Argymhelliad 15. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i adolygu sut mae gwybodaeth am daliadau uniongyrchol yn cael ei chyfleu i ddefnyddwyr gofal cymdeithasol a'u gofalwyr, a datblygu ymgyrch wybodaeth wedi'i thargedu i godi ymwybyddiaeth o daliadau uniongyrchol. Fel rhan o'i hymateb i'r argymhelliad hwn, dylai Llywodraeth Cymru roi gwybod pryd y mae'n disgwyl i'r gwaith hwn gael ei gwblhau.

Fel y nodwyd yn flaenorol, rydym yn cydnabod ac yn cefnogi'n llwyr y bwriad sydd wrth wraidd argymhelliad y Pwyllgor a'r canlyniad y mae'n ceisio ei gyflawni.

Rydym wedi gweithio gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r awdurdodau lleol i ymgorffori'r argymhellion yn adroddiad [Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion](#) 2022 mewn Canllawiau Statudol. Mae hyn yn cynnwys argymhellion penodol i awdurdodau lleol wella'r wybodaeth a ddarperir i bobl yn ogystal â thrwy'r gweithlu. Byddwn yn ysgrifennu at yr awdurdodau lleol yn yr hydref i gadarnhau'r sefyllfa yn hyn o beth.

Yn ddiweddarach eleni byddwn yn defnyddio'r wybodaeth o'n Fframwaith Perfformiad newydd â'r awdurdodau lleol i weld faint sy'n manteisio ar y ddarpariaeth, a byddwn yn gweithio gyda'r awdurdodau lleol ar ffyrdd o gryfhau hyn gan ddefnyddio arferion gorau, yn enwedig o ran cyfathrebu. Bydd hyn yn helpu i ddangos a oes angen ymgyrch gyhoeddusrwydd ac yn llywio'r gwaith o greu cynnwys ar gyfer ymgyrch o'r fath.

Mae'r dystiolaeth ehangach hon yn ein helpu i ddeall yn well y sefyllfa bresennol o ran taliadau uniongyrchol. Am y ddwy flynedd ddiwethaf (hyd at fis Mawrth 2023), mae nifer yr oedolion sy'n cael taliad uniongyrchol wedi bod yn sefydlog ar oddeutu 5,600 o bobl – neu 11.3% o'r holl oedolion sydd â chynllun gofal a chymorth.

Argymhelliad 16. Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad i'r Senedd ynghylch a yw wedi penderfynu datblygu a chyflwyno system llwybr carlam ar gyfer taliadau uniongyrchol i ofalwyr, gan ystyried unrhyw argymhellion perthnasol a wneir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn dilyn ei adolygiad o daliadau uniongyrchol. Os bydd system o'r fath yn cael ei chyflwyno, dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y byddai hynny'n cael ei wneud a phryd. Os bydd yn penderfynu peidio â bwrr ymlaen, dylai Llywodraeth Cymru nodi sut mae'n bwriadu gwella mynediad at gymorth i ofalwyr di-dâl.

Roedd yr Adroddiad yn adlewyrchu'r lefelau uchel o fodlonrwydd ymhlith derbynwyr taliadau uniongyrchol, a adroddwyd i'r Archwilydd Cyffredinol. Roedd hyn yn cynnwys y broses o asesu a chynllunio gofal; teimladau pobl am eu gallu i reoli taliad uniongyrchol; a bod â dealltwriaeth glir o rwymedigaethau cyfreithiol bod yn gyflogwr.

Mae gofyn sicrhau cydbwysedd rhwng cael ymateb amserol ac ymateb sy'n sicrhau bod ymarferwyr yn buddsoddi'r amser angenrheidiol a phriodol i wrando ar yr unigolyn a deall yr hyn y mae am ei gyflawni. Rhaid i'r broses o gynllunio gan ganolbwyntio ar yr unigolyn, er mwyn nodi anghenion cymwys gofalwr di-dâl, barhau i gael ei defnyddio'n brif fecanwaith ar gyfer cefnogi gofalwyr di-dâl os ydym am

wrando ar yr hyn sy'n bwysig iddynt a sicrhau bod hynny'n cael ei wneud mewn ffordd gyfannol. Lle bo modd gwneud hynny mewn modd cymesur, rydym yn disgwyl i hynny ddigwydd.

Argymhelliad 17. Fel mater o frys, rhaid i Lywodraeth Cymru nodi ei chynlluniau i weithio gydag awdurdodau lleol i adfer yn llawn wasanaethau gofalwyr yr amharwyd arnynt a blaenoriaethu'r gwaith o ailagor canolfannau dydd, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd i'r Pwyllgor hwn cyn diwedd 2022, ynghyd â'r rhesymau dros unrhyw oedi.

Cyhoeddodd ADSSC [adroddiad](#) o'i adolygiad i Gyfleoedd Dydd ym mis Mawrth 2024. Cyhoeddwyd Datganiad Ysgrifenedig yn ymrwmo i sefydlu gweithgor i ystyried saith argymhelliad yr adroddiad, a oedd yn canolbwyntio ar gomisiynu, cyd-gynhyrchu, cyflogaeth a dileu elw, gweithlu ac arloesedd digidol. Cyfarfu'r grŵp ym mis Mai 2024 ac mae cyfarfodydd pellach yn cael eu trefnu. Bydd y grŵp yn edrych ar wella canlyniadau yn y tymor byr a gwneud argymhellion ar gyfer ymyriadau pellach wedi'u targedu a all fod angen adnoddau ychwanegol.

Cyflwynwyd yr adroddiad yng nghyfarfod Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol ac yng Ngrŵp Cynghori'r Gweinidog ar Anabledd Dysgu, lle mae pryder sylweddol am effaith yr argyfwng costau byw ar wasanaethau.

Argymhelliad 18. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad cyflym ynghylch a yw hawliau gofalwyr o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cael eu torri yn sgil ysgwyddo mwy o gyfrifoldebau gofalu nag y gallent fod yn fodlon eu gwneud, neu'n gallu eu gwneud, oherwydd y diffyg gwasanaethau sydd ar gael. Dylid cyhoeddi canlyniadau'r adolygiad hwn i'r Pwyllgor hwn a dylent fod ar gael i'r cyhoedd.

[Cyhoeddwyd](#) adolygiad cyflym Cymdeithas y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Tachwedd 2023. Mae'r canfyddiadau'n cynnwys oedi a diffyg mynediad at asesiadau anghenion gofalwyr a diffyg ymwybyddiaeth o hawliau gofalwyr. Sefydlwyd grŵp Gorchwyl a Gorffen ym mis Ionawr 2024. Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr iechyd, awdurdodau lleol a gofalwyr di-dâl. Mae pob awdurdod lleol wedi cwblhau arolwg i hunanasesu eu perfformiad mewn perthynas â gwybodaeth, cyngor a chymorth i asesiadau anghenion gofalwyr a gofalwyr di-dâl. Mae enghreifftiau o arferion da a rhwystrau'n cael eu sefydlu a'r cynnydd yn cael ei oruchwylio gan Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr Di-dâl. Mae [siarter](#) Llywodraeth Cymru sy'n amlinellu hawliau gofalwyr yn parhau i gael ei adolygu a'i ddiweddarau pan fo angen.

Argymhelliad 19. Dylai Llywodraeth Cymru fandadu hyfforddiant dementia ychwanegol ar gyfer staff y GIG a all ddod i gysylltiad â phobl sy'n byw gyda dementia.

Mae Byrddau Iechyd yn parhau i gyflwyno adroddiadau bob chwe mis i Lywodraeth Cymru'n amlinellu'r cynnydd ar yr hyfforddiant a weir gan staff ar lefel wybodus, fedrus a dylanwadwr. Mae unrhyw bryderon yn cael eu bwydo'n ôl i'r bwrdd iechyd i weithredu arnynt.

Mae Gwelliant Cymru a Llywodraeth Cymru'n parhau i gyfleu'r Safonau Gofal Dementia er mwyn iddynt gael eu cydnabod yn flaenoriaeth genedlaethol. Mae'r safonau'n cynnwys ffocws ar ddysgu a datblygu, sef: Safon 17 - Bydd pob aelod o staff sy'n darparu gofal ar bob lefel ym mhob disgyblaeth a lleoliad, yn cael cyfle i gymryd rhan mewn dysgu a datblygu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae adroddiadau'n cael eu derbyn ar y safonau hyn bob chwe mis hefyd. Drwy gynllunio ar gyfer y cynllun gweithredu dementia olynol byddwn yn ystyried ein blaenoriaethau yn y dyfodol.

Argymhelliad 20. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda byrddau iechyd i sefydlu cynlluniau peilot i dreialu slotiau rhyddhau penodol ar gyfer pobl â dementia, a chyflwyno adroddiad ar y canfyddiadau i'r Pwyllgor hwn.

Mae'r gwaith yn parhau ar raglen Hospital Charter Care Fit for Vision Individual Perspective and Social (VIPS). Mae trefniadau llywodraethu cadarn yn cael eu sefydlu mewn byrddau iechyd a nifer o weithdai a chyfarfodydd wedi'u cynnal.

Wrth symud ymlaen, bydd Gwelliant Cymru yn gweithio i sicrhau bod Mapio Gofal Dementia (DCM) yn cyd-fynd â llif gwaith siarter ysbytai. Byddant yn helpu'r rhanbarthau hefyd i ddatblygu'r rhaglen DCM sy'n cynnig arsylwadau a chanlyniadau ystyrion i gefnogi gwella gofal dementia.

Hefyd, mae safon benodol (19) sy'n canolbwyntio ar wasanaethau gan sicrhau, pan fydd rhaid i unigolyn sy'n byw gyda dementia newid/symud rhwng unrhyw leoliadau neu wasanaethau, y bydd gofal yn cael ei gydlynyn'n briodol a'n bod ni'n derbyn diweddariadau bob chwe mis ar y gwaith hwn. Mae Gwelliant Cymru'n cefnogi Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gydweithio ar sut ellir cyflawni hyn a pharhau i fod yn ganolbwynt i'r gwaith siarter ysbytai.

Argymhelliad 21. Dylai Llywodraeth Cymru edrych ar opsiynau ar gyfer agor wardiau ysbytai i deuluoedd/gofalwyr, a lle bo hynny'n briodol, staff cartrefi gofal i helpu gyda thasgau o ddydd i ddydd, a chyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor hwn. Dylai'r adroddiad hwn hefyd fynd i'r afael â'r mater o yswiriant ar gyfer gweithwyr cartrefi gofal wrth ymgymryd â rôl o'r fath.

Trwy waith siarter yr ysbyty, mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cefnogi camau i wella gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn mewn ysbytai. Mae enghreifftiau'n cynnwys ymgorffori'r 'Cynllun Pili Pala', gan gynnwys 'Dyma Fi' ac 'Ymgyrch John' (hyrwyddo ymweliadau agored) mewn wardiau.

Yn ystod pandemig COVID-19, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau manwl i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG mewn perthynas ag ymweliadau ysbyty er mwyn rheoli lledaeniad y Coronafeirws ymhlith cleifion, staff a'r cyhoedd. Sefydlwyd grŵp canllawiau ymweld ag ysbytai Cymru Gyfan i fonitro gweithredu'r

trefniadau hyn a chawsant gyfarfodydd rheolaidd gan fabwysiadu proses ailadroddol o ddysgu a rhannu enghreifftiau o arferion gorau gydol y pandemig.

Ym mis Awst 2022, fe wnaeth Grŵp Ymweliadau Ysbyty Cymru Gyfan gyfarwyddo grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried yr adroddiad ffurfiol ar wersi a ddysgwyd a *datblygu cyfres o egwyddorion gweithredol ar gyfer ymweld ag ysbytai wedi'r pandemig*. Fe wnaeth nifer o arolygon staff a chleifion hysbysu'r gwaith hwn, a bellach mae'r GIG yng Nghymru'n rhedeg dull seiliedig ar risg o ymweld gyda hwblygrwydd i addasu yn seiliedig ar amgylchiadau lle mae angen ystyried ystyriaethau ymweld.

Argymhelliad 22. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau i fyrddau iechyd, gan bwysleisio bod yn rhaid rhoi blaenoriaeth uwch i anghenion tai yn y broses rhyddhau o'r ysbyty, ac y dylid cynnwys sefydliadau tai yn y timau amlddisgyblaethol, fel mater o drefn.

Fel y nodwyd yn y diweddariad yn erbyn argymhelliad 4, rydym wedi cyhoeddi canllawiau rhyddhau o'r ysbyty wedi'u diweddarau sy'n ymdrin â nifer o feysydd canllaw newydd ar faterion iechyd a gofal cymdeithasol i staff cymorth. Mae adrannau pwrpasol wedi'u cynnwys yn y Canllawiau Rhyddhau o'r Ysbyty (gweler Argymhelliad 4) sy'n cynnwys:

Digartrefedd – sicrhau bod staff ward yn ceisio sefydlu statws digartrefedd gwirioneddol/posibl yn fuan ar ôl derbyn claf, er mwyn helpu i sicrhau atgyfeiriadau amserol at wasanaethau amlddisgyblaethol perthnasol. Y nod yw helpu i adnabod a mynd i'r afael yn gynnar ac anghenion tai ar ôl rhyddhau pobl. Mae data PoDC (argymhelliad 4) yn cofnodi oedi sy'n gysylltiedig â 'Digartrefedd' a 'Dim Llety Addas' i helpu i dynnu sylw a mynd i'r afael â phroblemau tai ar lefel leol;

Offer a thechnoleg gynorthwyol - er mwyn helpu i sicrhau y gall pobl fyw'n ddiogel ac yn annibynnol gartref, yn enwedig os yw eu hanghenion wedi newid yn dilyn arhosiad yn yr ysbyty;

Addasiadau tai ar gyfer rhyddhau o'r ysbyty - er mwyn sicrhau bod mân addasiadau'n cael eu cynllunio cyn gynted â phosibl er mwyn helpu i ryddhau rhywun yn ddiogel.

Yn ogystal, o ran gwella arferion gwaith rhwng y maes digartrefedd a'r maes iechyd, cafwyd ymgynghoriad ar Bapur Gwyn ar roi terfyn ar ddigartrefedd yng Nghymru yn gynharach eleni. Mae canlyniadau'r ymgynghoriad wrthi'n cael eu hystyried ac mae rhaglen waith yn cael ei datblygu a fydd yn ceisio cyflwyno gwell arferion i gefnogi pobl ddigartref, neu'r rhai sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, wrth iddynt fynd i mewn i'r ysbyty ac wrth gael eu rhyddhau o'r ysbyty. Mae'r Gweinidogion yn gweithio'n agos i ystyried safbwyntiau polisi wedi'u diweddarau mewn nifer o feysydd, gan gynnwys rhyddhau o'r ysbyty.

Argymhelliad 23. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau i fyrddau iechyd i bwysleisio pwysigrwydd cynnwys timau fferylliaeth fel rhan hanfodol o'r tîm amlddisgyblaethol fel mater o drefn.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hymateb i'r Adolygiad Annibynnol o Wasanaethau Fferylliaeth Glinigol yng Nghymru ym mis Medi 2023 [Adolygiad Annibynnol o Wasanaethau Fferylliaeth Glinigol yn Ysbytai'r GIG yng Nghymru - Ymateb Llywodraeth Cymru](#)

Argymhelliad allweddol oedd:

- *Rhaid i dimau fferylliaeth fod yn rhan o gynllunio ar gyfer rhyddhau gan ddechrau ar adeg derbyn claf, a'r sefyllfa ddiodyn yw atgyfeirio cleifion am gymorth/gofal meddyginiaethau ar ôl eu rhyddhau oni bai ei bod yn amlwg nad oes ei angen.*

Mae Grŵp Prif Fferyllwyr/Cyfarwyddwyr Fferylliaeth byrddau iechyd wedi sefydlu gweithgor i weithredu'r camau arfaethedig (ar unwaith, yn y tymor byr a chanolig) i fynd i'r afael â rôl fferylliaeth wrth optimeiddio llif cleifion.

Argymhelliad 24. Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei chynlluniau, gan gynnwys amserlenni, ar gyfer adolygu a gwella cyfathrebu gyda theuluoedd a gofalwyr. Dylai'r adolygiad hwn hefyd gynnwys gwerthusiad o ansawdd ac effeithiolrwydd yr asesiadau o anghenion gofal a chymorth sy'n cael eu cynnal cyn rhyddhau.

Roedd Canllawiau Rhyddhau o'r Ysbyty (gweler Argymhelliad 4) yn cynnwys adran benodol ar 'Ofalwyr Di-dâl' i sicrhau bod y broses ryddhau'n ymgysylltu'n llawn â theuluoedd a gofalwyr di-dâl. Roedd yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr yn rhan o'r gwaith o gynhyrchu'r canllawiau. Mae'r adran yn nodi gwybodaeth benodol i gleifion, eu teuluoedd a/neu ofalwyr ar swyddogaethau gofal cymdeithasol allweddol sydd eu hangen fel rhan o'u gofal parhaus ynghyd â dolenni i wybodaeth ategol y gall staff ei rhannu â chleifion a theuluoedd.

Hefyd, mae Llwybrau D2RA (gweler Argymhelliad 5) yn rhoi pwyslais ar gynnwys, cefnogi a diweddarau teuluoedd a gofalwyr wrth wneud penderfyniadau gydol y broses ryddhau.

Argymhelliad 25. Dylai Llywodraeth Cymru egluro pa gamau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon yn ymwneud â diogelu data, a sicrhau bod memoranda cyd-ddealltwriaeth a phrotocolau llywodraethu gwybodaeth priodol ar waith fel nad oes unrhyw rwystrau rhag rhannu data rhwng gwahanol rannau o'r system iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru'n parhau i weithio gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar weithredu Porth Rhannu Gwybodaeth newydd a fydd yn rhoi ateb digidol i sefydliadau iechyd a gofal ar gyfer rheoli eu prosesau rhannu data a Llywodraethu Gwybodaeth. Mae'r system, a ddatblygwyd fel ateb dielw gan y GIG yn Lloegr, wrthi'n cael ei theilwra i weithio gyda phroses ddiwygiedig Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) a bydd ar gael yn rhad ac am ddim i awdurdodau lleol, byrddau iechyd a sefydliadau iechyd a gofal eraill, gydag ymrwymiad i ffi cynnal a chadw flynyddol fach.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn rheoli grŵp cyfeirio rhanddeiliaid Llywodraethu Gwybodaeth yn awr. Cafodd y grŵp ei sefydlu yn 2022 er mwyn rhoi cyfle i rhanddeiliaid drafod a rhannu gwybodaeth am faterion sy'n ymwneud â rhannu data,

prosesu data, safonau data a llywodraethu gwybodaeth. Mae gan y grŵp aelodau o awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru, iechyd, a swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac mae'n cyfarfod bob chwarter.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn cymryd rhan lawn hefyd yn y rhaglen Adnoddau Data Cenedlaethol (NDR) ac maent yn cael eu comisiynu gan yr NDR i wneud gwaith ar ddeall sut allwn ni ddarparu data gofal cymdeithasol i'r platfform. Rydym wedi cwblhau gwaith ar aeddfedrwydd data mewn adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a gaiff ei gyhoeddi yn 2024 ac rydym yn aelodau o grŵp pedair gwlad sy'n datblygu safonau data ar gyfer gofal cymdeithasol gan ddefnyddio'r Adnodd Rhyngweithredu Gofal Iechyd Cyflym (FHIR). Rydym wrthi'n cwmpasu prosiect i ddatblygu Safon Data Gweithredu Lleiaf (MODS) ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru gan ddefnyddio gwaith sydd wedi'i wneud yn flaenorol gan GIG Lloegr. Hefyd, rydym yn cwmpasu prosiect a fydd yn dechrau casglu a datblygu achosion defnydd penodol a fydd yn ein helpu i ddeall y mathau o ddata a rennir mewn gofal cymdeithasol.